Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2018 - 2028
Cyfle i ddweud eich dweud

Nod yr arolwg hwn yw rhoi cyfle i chi leisio barn ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy deng mlynedd drafft y sir. Bydd yn cymryd tua deng munud o'ch amser i'w gwblhau.
Darllenwch y cynllun drafft neu'r pedwar poster ar y wefan i'ch helpu:

www.powys.gov.uk/haveyoursay

Mae gan Bowys dros 12,000 o hawliau tramwy unigol sy'n ymestyn ar hyd a lled y tir. Trwy ddilyn y rhain caiff trigolion ac ymwelwyr ddewis y ffordd orau i fwynhau golygfeydd godidog y sir.

P'un ai cerdded, beicio, neu farchogaeth ceffylau ar ein llwybrau march sy'n mynd â'ch bryd, rhedeg i gadw'n heini neu yrru cerbydau ar ffyrdd didramwy; nod y cynllun yw sicrhau ein bod yn gwella rhwydwaith y llwybrau fel y gall pobl ei gyrraedd yn hwylus boed hindda neu ddrycin.

Cefndir:

Lluniwyd y cynllun cyntaf yn 2007 i gydymffurfio â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae'r Ddeddf yn datgan bod dyletswydd ar y cyngor i gwblhau ac arolygu cynllun newydd bob yn ddeng mlynedd

Rydym wedi ysgrifennu'r cynllun deng mlynedd newydd ar ôl ymgynghori â defnyddwyr, grwpiau cymunedol amrywiol, trigolion, tirfeddianwyr a chynghorau tref a chymunedol.

Cyn i ni fabwysiadu'r cynllun hoffen ni roi cyfle i chi roi sylwadau arno am yr ail dro. Mae gweledigaeth, pedwar thema a chamau gweithredu penodol y byddwn yn bwrw ymlaen â nhw drwy gydol y cynllun. Rhaid i ni dderbyn eich ymatebion erbyn 31 Ionawr 2019.

Diolch yn fawr

Powys